# Cytundebau Partneriaeth/Cydweithio

Mae Cytundeb Partneriaeth yn broses: nid oes rhaid iddo fod yn ddogfen gyfreithiol er y gallai fod yn sail i un. Yr amser gorau i lunio'r cytundeb yw cyn i'r gwaith ar y prosiect ddechrau. Hyd yn oed pe na baech yn gwneud cytundeb ffurfiol, gallech ddefnyddio agweddau arno'n anffurfiol (fel rhestr wirio, i weld a oes unrhyw beth y mae angen ichi ei drafod). Bydd y syniadau y tu ôl iddo'n helpu.

Gall cytundebau fod yn athronyddol yn ogystal ag yn ymarferol. Gallant bennu ymddygiad arferol y grŵp a chytundebau gwaith, gan ofyn cwestiynau dyfnach a bod yn fwy na thasg weinyddol yn unig.

Mewn cydweithio cymhleth gyda sawl partner â gwahanol brofiad, cefndir, diwylliant, iaith, adnoddau, gallai cytundeb fod yn bwysig i herio diwylliant gwaith gormesol. Gall fod yn gymorth i greu diwylliant gwahanol. Pwy sy'n cael budd o'r diwylliant? Pwy sydd â grym wrth ddiffinio llwyddiant? Beth sy'n gwella niwed? Sut mae cymodi?

Gall y broses helpu:

- ✓ Creu lle newydd gyda chydwerthoedd, yn hytrach na moesymgrymu i ddisgwyliadau'r partner arweiniol
- ✓ Egluro trefniadau cydweithio
- ✓ Rhagweld problemau a chytuno am sut i ddelio â nhw
- ✓ Meithrin tegwch, ymddiriedaeth ac eglurder ymhlith y cydweithwyr

## Cam 1 – Derbyn ac ymbaratoi

- Soniwch am greu cytundeb gyda'ch cydweithwyr ac am ei fuddion a'i bosibiliadau
- Gofynnwch i gydweithwyr am eu teimladau gan ystyried eu gobeithion a'u pryderon. Cynhwyswch eu hawgrymiadau i gyrraedd nod mewn ffordd wahanol
- Os oes proses i gyrraedd cytundeb, gofynnwch i'ch cydweithwyr ystyried ymlaen llaw beth yr hoffent ei gael yn y cytundeb
- Lluniwch restr o bynciau i'w trafod –mae awgrymiadau isod. Ychwanegwch atynt yn y cyfarfod
- Gwnewch yn siŵr bod y lleoliad (gwir neu rithiol) yn addas a hygyrch i'ch cydweithwyr o ran iaith, amseriad, lle, Arwyddeg ac ati
- Penderfynwch pwy sy'n mynd i hwyluso'r drafodaeth. Byddai rhywun o'r tu allan yn ddelfrydol. Os nad yw hynny'n bosibl, dewiswch un sydd â'r sgiliau cryfaf neu sy'n gwybod y sefyllfa orau

## Cam 2 – yn y cyfarfod

- Gwnewch yn siŵr bod pawb yn gallu dod. Os na all pobl allweddol fod yno, newidiwch y dyddiad

- Rhowch o leiaf awr, os nad dwy. Os oes pethau sylfaenol i’w trafod, rhowch ragor o amser. Gyda chyfarfodydd Sŵm, gallech gael un sesiwn i bob un o'r 4 pwnc isod, gydag egwyl rhyngddynt

- Yn y cyfarfod, rhowch restr o syniadau am y cytundeb ac ychwanegu atynt gyda'r partneriaid. Mae pob cytundeb yn wahanol a bydd rhestru ar y cyd bynciau i’w trafod yn sicrhau nad oes neb yn teimlo ei fod wedi’i wthio i gytuno. Mae'r broses yr un mor bwysig â'r cynnyrch terfynol

- Trafodwch bob pwnc. Rhannwch eich amser yn bedair ran ar gyfer y 4 pwnc. Os oes llawer o bobl, rhowch bawb mewn grwpiau llai a chael pob un i gymryd pwnc gan nodi pwyntiau i'w trafod gan y grŵp cyfan. Rhaid gwneud yn siŵr ar ddiwedd y dydd fod pawb yn fodlon ar y penderfyniadau. Ysgrifennwch y cytundeb yn y cyfarfod os yw'n bosibl

- Ddiwedd y cyfarfod, cytunwch ar y camau nesaf. Gallwch hefyd adolygu sut aeth y cyfarfod

## Cam 3 – ar ôl y cyfarfod

- Dosbarthu'r cytundeb drafft gan ofyn am sylwadau. Os oes llawer o anghytundeb neu bryder, trefnwch ail gyfarfod. Peidiwch â cheisio cyrraedd cytundeb y tu allan i'r cyfarfod
- Pan fydd pawb yn hapus, dosbarthwch y fersiwn derfynol. Cynhwyswch enwau pawb a'r dyddiad

## Cam 4 – diwygio ac adolygu

Os yw'r cydweithio'n gymharol hirdymor (yn hwy nag ychydig fisoedd) pennwch ddyddiad adolygu hanner ffordd drwy’r cyfnod neu'n flynyddol.

- ✓ sut mae hyn yn gweithio ichi?
- ✓ Oes pethau rydych chi am eu newid, eu hychwanegu neu eu tynnu?

## Pynciau posibl i'w cynnwys yn eich cytundeb

Dyma rai awgrymiadau y gallwch eu diwygio.

### 1. Amcanion (gobeithion) y prosiect cydweithredol

Rhaid cynnwys yr amcanion a’r gobeithion yn eich geiriau eich hun. Meddyliwch am ffyrdd o fynegi eich amcanion gyda'ch gilydd.

Gall yr amcanion fod yn fyr neu’n ddisgrifiadol.

Gall hyn gymryd amser sylweddol.


*Mae croeso ichi atgynhyrchu'r deunyddiau, ond dylech gynnwys y gydnabyddiaeth uchod*

## 2. Gwerthoedd a ffyrdd o weithio

Trafodwch y gwerthoedd sy'n sail i'ch cydweithio. Sut y byddwch chi’n cydweithio i greu diwylliant sy'n addas i'ch prosiect a'ch cydweithwyr? Sut y byddwn ni’n cydffynnu a chyflawni ein hamcanion? Yn y drafodaeth gall pobl godi cwestiynau am arferion, grym ac anghydraddoldeb strwythurol.

Rhaid rheoli’r gwaith a gofyn y cwestiynau pwysig fel pryd a sut. Rhaid bod y cynnwys yn meddwl rhywbeth go iawn. Dylech geisio dychmygu sut olwg fydd ar y cydweithio.

Bydd y trafodaethau yma’n dylanwadu ar y rhai nesaf.

[Os yw amser yn brin, gorffennwch y cyfarfod yn ei flas yma. Bydd amser rhyw ben arall i wneud rhagor.]

Atal y Fi Fawr

4. Ymrwymo i atal y Fi Fawr

Mae’n pwysleisio’r gwaith sydd ymhlyg yn newid eich ffyrdd o ymddwyn. Yn ôl egwyddorion Jemez, dyma’r ymrwymiad i’ch newid eich hun.

Mae’n waith mawr i adolygu a deall eich safle a’ch cyd-destun cymdeithasol a gwleidyddol. Mae’n cynnwys eich hunaniaeth o ran hil, dosbarth, rhywedd, rhywioldeb ac abledd a dylanwadau’r rhain ar eich dealltwriaeth o’r byd yn ogystal â’ch breintiau.

Rydych chi’n ystyried syniadau sy’n creu beth sy’n normal ichi, sut gall hynny fod yn wahanol i eraill a chreu lle i fynegi hyn. Gall hyn gynnwys gofyn y cwestiwn ichi eich hun cyn cyfrannu at drafodaeth (‘pam ydw i’n siarad?’) a pheidio â bod yn ffroenuchel a meddwl y dylai pawb ddeall yr hyn rydych chi’n ei ddeall.

Gwaith caled weithiau yw gwahanu’r Fi Fawr rhag y sgiliau o uniaethu gyda’r gymuned i’w gwella. Rhaid arwain yn addfwyn.

**EGO CHECK**

**4. Commit to Ego Check**

**This one captures a lot of self work. One of the Jemez Principles notes this as “Commitment to Self Transformation.”**

**Here is a lot of the work on reviewing and understanding your POSITIONALITY (social and political context that creates your identity in terms of race, class, gender, sexuality, and ability status-- and how it influences your understanding of and outlook on the world, as well as privileges derived).**

**You are examining constructs & adaptive measures that centers “normal” for you, how that can be different for others, and actions to take to create space for that. This can be practices of “WAIT” (Why Am I Talking) and checking your “Arrogance of Expertise” (not presuming others SHOULD “get it” just like you).**

**It’s work to separate the little egoistical voice from true intuition and practices of healing in, with, and for community. Leading with HUMILITY.**

## 3. Yn ymarferol

Pethau hanfodol i’w cynllunio’n gynnar

- ✓ Beth yw’r canlyniadau/prosesau/amserlen i’r gwaith?
- ✓ Beth yw’r dyddiadau cau neu’r cerrig milltir?
- ✓ Beth yw’r camau pendant y mae’n rhaid cytuno arnynt nawr?

### Cyfathrebu

- ✓ Sut byddwn ni'n cyfathrebu? (cyfrwng, iaith, pa mor aml)
- ✓ Sut, pryd, pam, ble y cawn gyfarfodydd?
- ✓ Pa fath o gyfarfodydd fydd yn addas inni?
- ✓ A wnawn adroddiadau?
- ✓ Sut y rhannwn wybodaeth?
- ✓ Sut bydd rhywun yn nodi problem?

### Swyddogaethau a chyfrifoldebau

- ✓ Pa swyddogaethau sydd gennym? Beth rydym ni'n ei gyfrannu a'i ddisgwyl?
- ✓ Beth yw cyfrifoldebau aelodau unigol?
- ✓ A allwn ddatganoli cyfrifoldebau i eraill?
- ✓ Faint o ryddid sydd gennym i newid ein cyfraniad?
- ✓ Sut bydd penderfyniadau'n digwydd a chan bwy?
- ✓ Sut rydym ni'n nodi problemau?
- ✓ Sut mae derbyn aelodau newydd?

### Adnoddau

- ✓ Pa ymrwymiadau mewn arian neu nwyddau sydd gan bawb i'w cyfrannu?
- ✓ Ble fydd unrhyw arian yn cael ei gadw?
- ✓ Sut bydd adnoddau/cyfraniadau eraill yn digwydd?
- ✓ Anfonebu a thalu
- ✓ Cadw cofnodion
- ✓ Treuliau – am faint y gellir ei hawlio, am beth, pryd?
- ✓ Gorwario cyllideb/tanwariant/cyfrifoldeb am ddyledion

### Proffil allanol

- ✓ Sut/pryd/pam y byddwn ni'n cyfathrebu ag eraill y tu allan?
- ✓ Sut rydym am briodoli gwaith (i unigolion/pawb)?

### Gwerthuso a dysgu

- ✓ Sut y byddwn ni'n myfyrio ar ein gwaith a'r gwersi a ddysgwn?
- ✓ Sut y byddwn ni'n gwerthuso ein gwaith?
- ✓ Sut byddwn ni'n dogfennu hyn oll?

## 4. Sefyllfaoedd posibl

Mae dychmygu sefyllfaoedd yn gymorth wrth gynllunio ac osgoi problemau.

Mae hefyd yn ffordd o godi pryderon a magu ymddiriedaeth.

### Sut i'w defnyddio


*Mae croeso ichi atgynhyrchu'r deunyddiau, ond dylech gynnwys y gydnabyddiaeth uchod*

Cael sesiwn o weithio drwy sefyllfaoedd posibl gyda'r cydweithwyr a'u datrys. Hyd yn oed os ydynt yn ddyrys, daliwch ati nes eu datrys.

Cofnodwch y canlyniadau.

Gallwch ailadrodd y gweithgarwch.

### Enghreifftiau

Beth a wnawn:

- ✓ pan fydd y cytundeb yn cael ei dorri, neu pan fydd niwed yn digwydd? [Dyma un bwysig.]
- ✓ os bydd rhywun yn methu mynychu cyfarfodydd neu'n mynd yn sâl?
- ✓ os oes rhywun am ymadael?
- ✓ os bydd cyfyngiadau'r pandemig yn parhau am flwyddyn arall?
- ✓ os na all partner gyflawni ei ymrwymiadau?
- ✓ os yw ymateb y cyhoedd i gyfraniad un partner yn peryglu'r prosiect?
- ✓ os nad yw rhywbeth yn gweithio fel y dylai neu nad oes modd ei wneud?